

**CYFRES SEMINARAU UNESCO:
SAFBWYNTIAU NEWYDD AR IACHÂD AR Y CYD,
CYFIAWNDER CYMDEITHASOL A LLES**

Deall Trawma sy'n Pontio'r Cenedlaethau



Mae **Dr Joy DeGruy** yn ymchwilydd ac addysgwr enwog. Yr oedd hi yn Athro Cynorthwyol ym Mhrifysgol Talaith Portland ac mae bellach yn gwasanaethu ar y Bwrdd Ymgynghorol Menter Iachau ar y Cyd UNESCO. Mae hi bellach wedi ymrwymo i iachau'r rhai sy'n parhau i ddioddef o anafiadau'r gorffennol a'r presennol, er lles pawb. Hi yw awdur y llyfr o'r enw "*Post Traumatic Slave Syndrome: America's Legacy of Enduring Injury & Healing*" (2005).



Athro, awdur a hwylusydd rhwyngwladol enwog yw **Thomas Hubl**, PhD, y mae ei waith gydol oes yn cyfuno mewnwelediadau craidd y prif draddodiadau doethineb a chyfriniaeth â darganfyddiadau gwyddoniaeth. Ceir manylion tarddiad ei waith, a mwy na dau ddegawd o astudio ac ymarfer ym maes iachau trawma ar y cyd, yn ei lyfr "*Healing Collective Trauma: A Process for Integrating Our Intergenerational and Cultural Wounds*" (2020).

Ar ôl eu cyweirnod, bydd Joy DeGruy a Thomas Hubl yn sgwrsio am gyfleoedd a heriau iachau clwyfau hanes a thrawma etifeddol, yn enwedig yng nghyd-destun caethwasiaeth trawsatlantig.. Byddant yn cymryd rhan ymhellach mewn sesiwn holi ac ateb i archwilio cymunedau llwybrau at iachâd a lles.



Dydd Iau, 11 Mai 2023

16.00 UTC/17.00 Amser y DU/18.00 Amser Paris

I gael y manylion llawn ac i archebu ar-lein,
ewch i: tinyurl.com/unescowebinar2